# Ar drothwy'r Brifwyl, BETI RHYS yn COFIO AM RYMNI

NID OEDD Llanddeusant, lle ganed Twynog, ymhell o Bantycelyn, cartref William Williams, yr emynydd; wedi i'r Diwygiad Methodistaidd dorri yn y ddeunawfed ganrif prynodd Williams dyddyn yn Llanddeusant lle daeth ei ferch, Ann, a'i gŵr Philip Thomas, i fyw.

Gwyddom fel y byddai Williams yn arfer pregethu mewn gwahanol dai ar hyd a lled y plwyf ac mai yma, mewn tŷ o'r enw Rhiwiau, y cynhaliwyd Cyfarfod Misol cyntaf y Tadau Methodistaidd, sef yn y tŷ a brynodd Williams i'w ferch.

Cafodd y Diwygiad a dorrodd allan yn ddiweddarach yn 1828 ddylanwad trwm hefyd ar Llanddeusant. Daeth bron bawb yn y plwyf at grefydd. Erbyn cyfnod Twynog ceid yno bump o ganghennau cryf o'r Ysgol Sul heblaw yr un a gyfarfyddai yn y capel.

Yn 1864 pan oedd yn ugain mlwydd oed symudodd Twynog i fyw i Aberdâr i wasanaethu gyda Mr David Davies, Canton House, i ganol dwndwr masnach un o drefydd prysuraf Deheudir Cymru yn y cyfnod hwnnw; yr oedd Mr Davies ei hun wedi symud o Landdeusant i Aberdâr.

Bu Twynog yn weithgar iawn yn y capel yn Aberdâr ac yn brysur yn cenhadu i gael aelodau newydd i'r Ysgol Sul. Casglodd ddigon o bobl ieuanc i sefydlu dosbarth o ugain o aelodau, oherwydd daethai i sylweddoli, yn ystod y cyfnod cynnar o'i fywyd yn Llanddeusant, mor bwysig oedd dylanwad yr Ysgol Sul ar fywyd ieuenctid y dydd.

Ymunodd â'r Cymrodorion a daeth yn un o gylch llenorion a beirdd ieuainc y dref. Yna ar ddydd Llun y Sulgwyn 1869 priododd ag Elin Ifans, merch John Ifans, y Cymro Du, oedd wedi dod, yn weddol ieuanc, i fod yn rheolwr gwaith haearn Abernant, Aberdâr, gyda'r teulu Crawshay.

Yna yn 1870 symudodd John Ifans a'i fab yng nghyfraith, Twynog, i Ferthyr, i agor gwaith haearn Pendarren i Mr Fothergill.

Yn 1875 symudodd Twynog eto i Rymni i agor siop esgidiau. Tra mwynheai iechyd gweddol bu'n teithio ar hyd a lled Cymru fel teithiwr masnachol ynglŷn â'i fasnach. Ymhen dwy flynedd ar bymtheg aeth yn hollol ddiymadferth yn gorfforol, ynghlwm dan gadwynau'r cryd cymalau o hynny ymlaen hyd ddiwedd ei oes.

* * *

EI BLESER mawr mewn bywyd bellach oedd cymdeithasu. Yr oedd wedi gwneud cyfeillion trwy Gymru benbaladr yn ystod ei gyfnod fel teithiwr masnachol. Ymysg y rhai y cofiaf fy mam yn sôn amdanynt yn galw i'w weld ym Mhreswylfa yr oedd Iolo Caernarfon, Emrys ap Iwan, Pedr Hir, J. J. Williams, J. T. Job a Dyfed.

Er bod ei gorff wedi'i garcharu mewn poen nid felly ei feddwl; yr oedd hwnnw mor iach a chwim ag aderyn bach yn hedfan yn yr awyr. Yr oedd yn ffraeth a chanddo lu o storiau ar ei gof ar gyfer pob amgylchiad. Darllenai'n eang ym myd llenyddiaeth, diwinyddiaeth a gwleidyddiaeth.

Yr oedd ganddo'r ddawn i holi ac i ddod i wybod beth oedd prif ddiddordebau unrhyw berson y byddai'n cyfarfod ag ef a'r ddawn wedyn i dynnu'r person hwnnw i gylch y gymdeithas y digwyddent fod ynddi ar y pryd ac felly i'w gael i deimlo'n hapus ac yn gartrefol mewn dim amser.

Yr oedd Twynog yn gaffaeliad i unrhyw gymdeithas neu bwyllgor, bob amser mewn hwyliau da ac yn llawen, heb syrthio byth i bruddglwyf.

Un noson galwodd David Watkins, brawd y bardd, Ioan Gwent, heibio iddo. Yr oedd Ioan Gwent newydd farw. Pan ofynnodd Twynog i David Watkins sut y teimlai ei ateb oedd: 'Rwy'n teimlo'n wael iawn heddiw; nid wyf yn meddwl y byddaf byw yn hir eto.' 'Tyt, tyt, Dafydd', meddai Twynog, 'Chwi ddowch yn well eto'n fuan'. 'Na', meddai 'Yr wyf yn ofni bod fy amser yn agosau'.

'Wel, os felly mae i fod', meddai Twynog, 'Cofiwch fi at Ioan eich brawd.' 'Nawr Twynog,' meddai Mr Watkins, 'Nid yw pethau cynddrwg â hynyna', a gwellodd Dafydd ar unwaith.

Tyfodd Preswylfa i fod yn fath o glwb llenyddol lle byddai pawb yn cymryd rhan mewn cân neu englyn, stori neu araith. Yr oedd gwybodaeth eang Twynog am gymeriadau diddorol ei wlad, a'i ddawn barod i adrodd stori yn ei wneud yn gwmniwr difyr. Yr oedd Cymdeithas y Beirdd yn Rhymni wedi dod i ben cyn i Dwynog fynd yno i fyw, ond yr oedd yno Gymdeithas a elwid Y Gynhadledd y daeth ef yn aelod ohoni am weddill ei oes.

* * *

BYDDAI'R Gynhadledd yn cyfarfod bob pythefnos i ymdrin â chwestiynau a fyddai'n codi yn y gymdeithas, cwestiynau Diwinyddol, Gwleidyddol, Athronyddol a Chymdeithasol ac wedi i Dwynog ymuno, Gwestiynau Barddonol.

Doed â'r gwahanol gwestiynau a'u taflu ar fwrdd y Gynhadledd ymlaen llaw i'w gwyntyllu. Erbyn gorffen ymdrin â hwynt byddai gan bob un o'r aelodau weledigaeth gliriach o'u hystyr. Dwsin oedd rhif yr aelodau. Dyma rai o'i rheolau:

1. Nid oedd ganddi ar y dechrau gartref sefydlog ond symudai i gartrefi'r gwahanol aelodau bob yn ail gyfarfod. Am nad oedd Twynog yn gallu symud oddi amgylch trefnwyd bod yr aelodau'n ymgynnull yn rheolaidd ym Mhreswylfa.
2. Newidid y llywydd bob tro y byddid yn ymgynnull.
3. Hysbysid ei thestunau bythefnos ymlaen llaw.
4. Ni chaniateid i neb fod yn wrandawr yn unig.

Meithrinid yr hen ddiwylliant gwerinol Cymreig yn y Gynhadledd hon ac yn y mudiadau eraill megis Eisteddfod Gwent a gynhaliwyd yn Rhymni bob blwyddyn ac yng nghymdeithasau'r capeli.

Mewn poenau dirdynnol treuliai Twynog ei amser yn darllen ac yn myfyrio ym mhynciau dyrys ei ddydd. Yna danfonai ffrwyth ei fyfyrdod, yn farddoniaeth ac yn erthyglau i wahanol gyfnodolion ei ddydd, megis *Tarian y Gweithiwr* a'r *Fellten*. Fel hyn y mae'n ysgrifennu am y Rhyfel yn Neheudir Affrica:

'Yr wyf wedi darllen gryn dipyn ar lenyddiaeth y mater y dyddiau diweddar hyn, megis erthyglau galluog y *Quarterly Review*, yr *Edinburgh Review*, *World Work* a llyfr Augustus Morgredien.'

Teimlai'n ddwys ac ysgrifennai'n gryf yn erbyn y rhyfel hwn fel hyn:

'Tra'n gofidio uwchben ein colledion trymion, ni allwn lai nag anghymeradwyo y rhyfel anfoesol hwn - rhyfel ag y gallesid ei osgoi gydag ychydig mwy o ddoethineb - rhyfel nad oedd ei angen - rhyfel na ddwg elw cyfartal i'r bywydau a gollir, - rhyfel edy elyniaeth rhwng cenhedloedd a'i gilydd yn Neheubarth Affrica am oesau, - rhyfel anghyfiawn fydd yn ysmotyn du ar gymeriad Prydain gerbron y byd.'

* * *

YR YDYM ni yng Nghymru'n perthyn i ddau draddodiad ac i ddau ddiwylliant gwahanol. daeth hyn yn amlwg i mi wedi imi ddarllen llyfrau Dr Thomas Jones, Rhymni.

Magwyd ef yn blentyn ym mywyd Cymraeg y capel, yr eisteddfod a'r Ysgol Sul, ond yn ddiweddarach mewn bywyd fe drôdd at y traddodiad Seisnig ac aeth i weithio ym Mhrifysgolion Glasgow a Dulyn ac i ysgrifennu yn Saesneg.

Yr oedd Syr O. M. Edwards yn ysgrifennu llyfrau syml ar hanes Cymru ac ar deithio yng Nghymru ac ar y cyfandir, ar gyfer gwerin Cymru, ond yr oedd ar yr un pryd yn perthyn i draddodiad Seisnig Prifysgol Rhydychen.

CYMREIG oedd bywyd y gymdeithas a gyfarfu ar aelwyd Preswylfa; er bod yr aelodau yn darllen y llyfrau Saesneg yn ogystal â'r rhai Cymraeg oedd yn ymdrin â chwestiynau gwleidyddol a pholiticaidd eu dydd, yn y Gymraeg y dewisasant ysgrifennu.

Hyfryd imi heddiw yw cael mynd yn ôl i'r cyfnod yn union cyn Gŵyl Dewi 1911, pan fu Twynog farw a phan fyrlymai ffynnon diwylliant Cymreig yn loyw ac yn glir ac i sylweddoli bod ffrwd y diwylliant hwnnw yno o hyd, wedi bod yn rhedeg o dan yr wyneb ar hyd y blynyddoedd, a'i bod yn awr yn barod i lamu allan yn llawn nerth a gogoniant, yn llawn o'r hen sbonc a direidi a welwyd gynt ar aelwyd Preswylfa.

Gyda thwf yr ysgolion Cymraeg daeth adfywiad i'r bywyd Cymraeg yng Ngwent a Morgannwg a chymoedd y De, sydd mor gryf nes y datblygodd yno'r dyhead am gael yr Eisteddfod Genedlaethol yng Ngasnewydd yn 1988 ac yn Rhymni yn 1990.

Dyfynna'r Parchg. R. E. Peregrine, un o gymdogion Twynog yn Rhymni, y cwpled hwn, a gyfansoddodd Twynog am un arall, sydd yn wirionedd cywir am Dwynog ei hun:

**Llenor llawn yn llonni'r llu,**
**A gwerin yn ei garu.**

Dyma englyn iddo gan y Parch J. J. Williams a fu'n gymydog iddo yn Rhymni:

**Awdwr mewn dirdyniadau - llenor llawn**
**A'r 'lleng' yn ei heglau;**
**Gwron a'i gur yn ei gau,**
**Gamaliel dan gymylau'.**

* * *

Y DYDD o'r blaen cefais y pleser o fynd yn ôl i dreulio diwrnod yn Rhymni. Wrth imi sefyllian o flaen Preswylfa yn tynnu llun o'r hen dŷ daeth y preswylwyr presennol allan i'm gwahodd i fynd i fewn i gael golwg ar y lle ar ei newydd wedd; mae bellach yn foethus a mawreddog.

Syllwn ar y cypyrddau hardd modern yn y gegin odidog a chofiwn fel y byddem ni'r teulu yn arfer eistedd gyda'r nos yn y llyfrgell, yn yr ystafell drws nesaf, yn gwrando ar y crics yn crawcian ar bentan hen grat fawr ddu'r gegin.

Bûm i lawr y Stryd Fawr. Yno gwelwn fod rhif 100 o'r stryd honno, lle bu Siop y Cwmni yn yr hen ddyddiau a lle bu'r Dr Thomas Jones yn gwasanaethu am rai bynyddoedd cyn mynd i'r Brifysgol, bellach yn dŷ byw.

Yr oedd yr un peth yn wir am rif 97, Siop Esgidiau Twynog gynt, lle cofiaf am yr esgidiau *Button boots* a'r rhai *elastic sides* yn cael eu gwerthu. Cofiwn am y gweithdy yn y cefn lle treuliai'r cryddion eu hamser yn trwsio esgidiau trigolion Rhymni; tŷ byw sydd yno bellach.